



Canolradd (Gogledd)

Chwarae'r Gêm - Act 1



(Nodyn i'r Tiwtor: Os dach chi'n dilyn Cwrs Canolradd CBAC (y gogledd) mi fydd y ddrama hon yn addas unrhyw bryd ar ôl Uned 1.)

Clwb Pêl-droed San Germano yn yr Eidal. Mae Michael Jones, 23 oed, yn curo ar ddrws Rheolwr San Germano. Mae troed Michael mewn plaster.

Rheolwr: Prego!

Mae Michael yn agor y drws ac yn mynd i mewn.

Rheolwr: Michael Jones! Sut wyt ti? Croeso i San Germano!

Michael: Diolch.

Rheolwr: Pryd wnaethoch chi i gyd gyrraedd?

Michael: Mi wnaethon ni gyrraedd maes awyr Napoli awr yn ôl. Roedd yr hogiau wedi blino felly mi aethon nhw yn syth i'r gwesty.

Rheolwr: Oedd Gwyn Thomas efo nhw?

Michael: *(Yn sarcastig)* Rheolwr bendigedig tîm bendigedig Caerddinas? Nac oedd. Mi wnaeth Gwyn gyrraedd ddoe. Roedd o isio amser i arfer â'r tywydd poeth.

Rheolwr: Dw i'n dallt hynny. Mae hi'n dri deg gradd selsiws yma heddiw ac mae hi'n mynd yn boethach bob dydd.

Michael: Mae hi'n ddeuddeg gradd yng Nghymru!

Mae'r ddau yn chwervthin.

Rheolwr: *(Mae o'n edrych ar goes Michael.)*
Be' wnest ti?

Michael: Be' wnes i?

Rheolwr: Be' wnest ti i'r droed?

Michael: Dim...dim byd o gwbl.

Rheolwr: Felly pam wyt ti'n gwisgo plaster?

Michael: Dw i ddim isio chwarae yn y gêm yfory. Mae fy chwaer yn nyrs yn Ysbyty Gwynedd. Mi wnaeth hi roi plaster ar fy nhroed. Mae Gwyn yn meddwl bod problem efo'r metatarsal.

Rheolwr: A'r gêm yfory?

Michael: Paid â phoeni. Caerddinas ydy'r ffefrynnau ond mi fydd San Germano yn ennill. Mi wnes i roi'r pres i'r hogiau y bore 'ma.

Rheolwr: Ydy pawb wedi cael pres?

Michael: Na. Doedd Medwin, y goli, ddim isio pres ond mae o'n mynd i gadw'n dawel.

Rheolwr: Dw i'n dallt. Mi wnest ti ddefnyddio tipyn o berswâd. Oes 'na problem?

Michael: Nac oes. Dydy o ddim yn goli da iawn!!!

Mae'r ddau yn chwervthin eto.

Rheolwr: Wel, tan nos yfory....

Michael: Ia. Dw i'n mynd am 'pizza'....ond mae 'na un peth arall.

Rheolwr: Y bonws? Dyma ti....pum deg mil o bunnoedd. Mi gei di 'pizza' da iawn am bum deg mil o bunnoedd.

Geirfa

Prego – Yes (What do you want?/Come in)! (Eidaleg)

Ffefrynnau - Favourites